# Diogelu'r Cyhoedd a Chefnogi Busnesau - Safonau Masnach yn creu argraff ar eich cymuned leol

Effeithiau a Chanlyniadau Gwasanaethau Safonau Masnach Lleol 2023/24 yng Nghymru

ACTSO
Association of Chief Trading Standards Officers

Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales











# RHAGAIR

Cynrychiola'r Gymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) benaethiaid Safonau Masnach ar draws Cymru a Lloegr ac ar hyn o bryd mae 95% o awdurdodau lleol yn aelodau. Creodd ACTSO y Fframwaith Effeithiau a Chanlyniadau yn 2018/19 i roi data cenedlaethol i Gymru a Lloegr ar waith a wnaed gan Wasanaethau Safonau Masnach awdurdod lleol. Dyma'i bedwerydd adroddiad.

Yn ystod 2023/24, parhaodd materion costau byw yn uchel ar feddyliau pawb. Roedd nwyddau rhad, anghyfreithlon, a ffug a oedd yn ymddangos yn "fargen dda" yn risg i ddefnyddwyr. Gallai honiadau prisiau camarweiniol achosi i ddefnyddwyr golli allan ar fargeinion teg, a pharhaodd fusnesau wrth risg o gael eu tanbrisio gan gystadleuaeth annheg a busnesau yn gwerthu nwyddau a gwasanaethau anghyfreithlon.

Ynghyd â'r tair thema arferol o Fynd i'r Afael â Cholled ac Atal Niwed, Cefnogi'r Economi Leol, a Hyrwyddo Iechyd a Llesiant, rydym wedi neilltuo adrannau penodol i reoliad amgylcheddol a gwaith i gefnogi defnyddwyr a busnesau gyda'r argyfwng costau byw.

Er bod Gwasanaethau Safonau Masnach lleol Cymru yn parhau dan bwysau o ran ariannu a staffio, maen nhw'n parhau i gael effaith fawr wrth ddiogelu defnyddwyr a helpu busnesau. Y penawdau o adroddiad eleni yw:

- Dros **£38 miliwn o golled wedi'i atal** yn sgil camau gan Safonau Masnach. Mae hyn gyfwerth â **£12.13 wedi'i arbed am bob £1 a wariwyd.**
- **Roedd cyllidebau refeniw dros £12 miliwn**, cynnydd o 1% ar y llynedd.
- Yn gyffredinol, mae **niferoedd staff** yn **258, bron union yr un peth â'r** llynedd.
- Hysbysiadau ac Atgyfeiriadau gan **Gyngor ar Bopeth wedi gostwng o 24,838 yn 2022/23 i 18,343 yn 2023/24.** Ymddengys bod hyn yn rhan o duedd ar ôl y pandemig.
- Eleni **erlynwyd 107 o bobl neu fusnesau o droseddau,** o'i gymharu â 70 **yn** 2022/23 **cynnydd sylweddol** o 65% **ar** 2022/23.
- Cyfanswm yr **arian a arbedwyd i ddioddefwyr sgamiau oedd £893,000,** gostyngiad sylweddol ar ffigwr 2023/23 o £2.8 miliwn. Gellid priodoli hyn i lwyddiant wrth atal post sgamiau rhag cyrraedd dioeddefwyr trwy weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater yn ei darddle.
- Darparodd Safonau Masnach dros **1,900 awr o gyngor i fusnesau trwy bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol.** Cynyddodd cyfanswm nifer y partneriaethau Awdurdod Sylfaenol hefyd ychydig o 75 i **79.**
- Cynhaliwyd bron i **13,000 o wiriadau cydymffurfio** i sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac i roi cyngor ar y safle iddynt. Mae hyn yn gynnydd o 11,000 y llynedd ac yn cynrychioli cynnydd o 19%.
- Atafaelwyd bron i **6,700 o gynnyrch anniogel neu nad oeddynt yn cydymffurfio** neu eu tynnu o'r farchnad gan gynrychioli arbediad i gymdeithas o bron i £114 miliwn.
- Roedd tua **474 eiddo yn amodol ar wiriad prynu prawf** i sicrhau nad oeddynt yn gwerthu nwyddau oedd â chyfyngiad oed, megis alcohol, fêps, cyllyll, tân gwyllt a sylweddau cyrydol i blant. Canfuwyd bod 14% wedi gwerthu i unigolyn dan oed.
- Atafaelwyd dros 1.3 miliwn o sigarennau anghyfreithlon, dros 0.220 tunnell o dybaco rholio â llaw anghyfreithlon a dros 376,000 o fêps anghyfreithlon.


Yn gryno, mae Safonau Masnach yn parhau i arddangos ei werth anferth wrth ddiogelu defnyddwyr, busnesau cyfreithlon, iechyd y cyhoedd, a'r amgylchedd. Mae effaith y gwaith hwn, ochr yn ochr â'r hyn a gyflawnwyd trwy Safonau Masnach Cenedlaethol, yn tynnu sylw at ganlyniadau y mae Safonau Masnach yn eu cyflawni. Mae Safonau Masnach yn unigryw wrth gael seilwaith a all weithredu ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol y ffordd hon ac mae hyn yn allweddol i'w lwyddiannau.

Rydym eisiau i'r adroddiad hwn hysbysu datblygiad polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys ariannu ar gyfer gwasanaethau, ac i godi proffil gwaith Safonau Masnach o fewn awdurdodau lleol.

Rhaid diolch yn arbennig i'r 17 o wasanaethau sy'n cwmpasu 20 o wasanaethau safonau masnach awdurdod lleol a gyflwynodd eu ffurflenni data. Mae hyn yn cwmpasu 85% o holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Jacqui Thomas,**
Cadeirydd, Safonau Masnach Cymru

**Valerie Simpson**
Cadeirydd Cymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach



## CEFNDIR A METHODOLEG

Gofynnwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Cyfrannodd gyfanswm o 17 gwasanaeth, yn cwmpasu 17 o'r 20 o wasanaethau safonau masnach awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ymatebion yn cwmpasu ardal â phoblogaeth o dros 2.7 miliwn, neu 86.7% o boblogaeth Cymru.

I gyfleu effaith genedlaethol amcangyfrifedig Safonau Masnach, mae ffigurau wedi'u haddasu i roi cyfrif am y boblogaeth a'r gyfradd ymateb ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r ffigurau hyn yn amcangyfrif effaith a lefelau gweithgaredd ar gyfer Cymru gyfan.

## GALW AC ADNODDAU

Y gyllideb refeniw bras a neilltuwyd i Safonau Masnach oedd yn agos at £12 miliwn, cynnydd o 1% o'r llynedd.

Derbyniwyd tua £357,000 mewn incwm o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys mesureg, grantiau Safonau Masnach Cenedlaethol ac incwm Awdurdod Sylfaenol.

O blith y **258 o weithwyr llawn amser** a gyflogwyd ar waith Safonau Masnach, roedd 89.5% yn staff "gweithredol".

Derbyniodd wasanaethau Safonau Masnach ychydig dros 18,000 o atgyfeiriadau a hysbysiadau i'w gwasanaethau o'r Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth. Dengys hyn sawl aelod o'r cyhoedd sy'n ceisio cyngor a chefnogaeth gan Safonau Masnach ar broblemau a materion cysylltiedig â defnyddwyr. Serch hynny, mae'n is na'r 24,838 yn 2022/23 a allai awgrymu nad yw costau byw yn bwrw defnyddwyr cymaint yn awr ag yr oedd bryd hynny. Er bod y galwadau ar Gyngor ar Bopeth yn parhau'n weddol uchel, mae'r adnoddau yn parhau'r un peth i fynd i'r afael â'r heriau newydd ac sy'n ymddangos. Yn ychwanegol, derbyniodd gwasanaethau safonau masnach bron i 9,000 o atgyfeiriadau gan bartneriaid eraill.

# **ADRAN UN:** MYND I'R AFAEL Â CHOLLED AC ATAL NIWED

Un o swyddogaethau allweddol Safonau Masnach yw atal colled i ddefnyddwyr a busnesau. Gall gwaith Safonau Masnach gynnwys darparu cyngor a chefnogaeth i'r cyhoedd ar sut i osgoi cael eu twyllo, ynghyd ag aflonyddu a chymryd camau gorfodi yn erbyn ymddygiad troseddol, i atal niwed a cholled ariannol. Gallai'r cyntaf fod wedi'i gyfyngu oherwydd cyfyngiadau ariannol y mae gwasanaethau lleol yn eu hwynebu a'r angen i ganolbwyntio ar weithgaredd statudol.

Amcangyfrifodd Astudiaeth Diogelu'r Defnyddwyr 2022 bod £54 biliwn mewn colled heb ei fodloni ar draws Prydain Fawr.

## 1.1 Atal Masnachu Twyllodrus, Anghyfeithlon ac Annheg

Bydd Gwasanaethau Safonau Masnach fel arfer yn cymryd camau gorfodi ffurfiol pan fydd pobl yn torri'r gyfraith yn fwriadol, wedi achosi niwed difrifol neu wedi anwybyddu cyngor gan swyddogion droeon. Mae gan ddeddfwriaeth Safonau Masnach amrywiaeth o gosbau gan gynnwys carcharu; dirwyon; fforffedu asedau; cosbau penodol; ac ymgymeriadau i atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Mae ymchwiliadau difrifol yn gymhleth, yn hir ac mi all gymryd sawl blwyddyn i ddod â nhw i brawf. Mae hyn yn cael ei ddwysau gan oediadau parhaus yn system Llys y Goron. Mae Llywodraeth yn parhau i gynyddu opsiynau ar gyfer defnyddio cosbau ariannol gan Safonau Masnach.

Yn **2023/24**:

- Erlynwyd tua 107 o ddiffynyddion a'u herlyn.
- Cyflwynwyd dedfrydau carchar gwerth cyfanswm o 46 o flynyddoedd.
- Gorchmynnwyd diffynyddion i dalu dros £51,121 mewn dirwyon.
- Gorchmynnwyd diffinyddion i dalu bron i £1 miliwn mewn gorchmynion atafaelu Enillion Trosedd, cynnydd sylweddol ar y llynedd o ganlyniad i un gorchymyn arbennig o fawr.

## 1.2 Colled ac Iawndal

Gall Safonau Masnach ofyn i'r Llys gyhoeddi gorchymyn iawndal i ddioddefwyr fel rhan o'r broses erlyn neu i gael iawndal i ddioddefwyr trwy amrywiaeth o ddulliau eraill. Yn **2023/24**, amcangyfrifir bod gweithredoedd Gwasanaethau Safonau Masnach wedi arwain at:

- £375,800 o iawndal yn cael ei ddyfarnu i ddioddefwyr gan y llysoedd.
- Dros £1,207,000 wedi'i atal rhag cael ei drosglwyddo i droseddwyr.
- £462,418 wedi'i ennill i ddioddefwyr trwy gyngor ac ymyriad.

**Yn gyffredinol ataliodd camau gan Safonau Masnach yng Nghymru dros £38 miliwn o golled i ddefnyddwyr a busnesau.**

Dengys hyn bod Safonau Masnach yn parhau i gynnig gwasanaeth pwysig a chost effeithiol i gymunedau lleol ac unigolion ac mae'n dangos difrifoldeb y troseddu y mae gwasanaethau lleol yn mynd i'r afael â nhw.

## 1.3 Cefnogi Dioddefwyr Sgamiau

Twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yn y wlad, sydd i gyfrif am 40% o drosedd yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n effeithio ar filiynau o bobl, sydd wrth risg o golledion ariannol sylweddol. Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn chwarae rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thwyll a diogelu pobl rhag sgamiau.

Mae Safonau Masnach yn cefnogi dioddefwyr i fynnu cymorth y mae ei angen iddynt i'w hatal rhag cael eu sgamio eto. Mae hyn yn cynnwys gosod dyfeisiau rhwystro galwadau a chamerâu carreg drws ynghyd â gweithio ag asiantaethau diogelu. Gall Safonau Masnach hefyd atgyfeirio i'r Timau Sgamiau ac eDrosedd Safonau Masnach Cenedlaethol i ymgymryd â gwaith aflonyddu megis cael systemau ffôn neu dalu wedi'u tynnu a thynnu gwefannau i lawr.

Mae'r rhan fwyaf o sgamiau yn deillio o dramor lle nad yw'n bosibl cynnal camau cyfreithiol ffurfiol gan Safonau Masnach.

Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru bod:

- Gwasanaethau Safonau Masnach awdurdod lleol wedi darparu cefnogaeth i bron i 1,600 o ddioddefwyr sgâm.
- Gwaith i aflonyddu postiadau twyll marchnata torfol, rhoi stop ar daliadau rhag mynd allan, gan arbed bron i £900,000 i ddefnyddwyr.

Yng Nghymru, mae nifer y dioddefwyr sgâm sydd wedi'u cefnogi wedi cynyddu o 1301 yn 2022/23 i 1579 eleni.

### CBS Blaenau Gwent: Cefnogi dioddefwyr sgamiau

Yn ychwanegol at ymgymryd â 100% o ymweliadau â'r holl ddioddefwyr sgamiau a adnabuwyd yn fregus pan gawsant eu cyfeirio gan yr Hwb Sgamiau Cenedlaethol, cefnoga Safonau Masnach Blaenau Gwent gymunedau lleol trwy ddarparu cyngor ar sgamiau i grwpiau bregus lle fo'n bosibl. Yn 2023, cynhaliwyd cyflwyniad i alluogi Byddin yr Iachawdwriaeth lleol i gynnig cyngor ar ymwybyddiaeth sgamiau, trosedd carreg y drws, a chyngor am fasnachwyr amheus.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn adnabod dioddefwyr sgamiau cronig sydd wedi dioddef sgamiau droeon, fel y gall ymweliadau dilynol gael eu cynnal i wirio eu llesiant, gan sicrhau nad oes gweithgareddau sgâm pellach wedi digwydd a chynnig caledi targed pan fydd ariannu ar gael.

### Ynys Môn: Menter Diogelu ac Atal Sgâm

Mae prosiect gyda Blocwyr Galwadau wedi profi defnydd da, gyda defnyddwyr yn adrodd ar ostyngiad mawr mewn galwadau. Oherwydd llwyddiant y prosiect, bydd gwaith yn parhau trwy gydol y flwyddyn ariannol nesaf, gan weithio gyda phartneriaid megis Gwasanaeth i Ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth, Cyfeillion yn erbyn Sgamiau a Gwasanaethau Cymdeithasol lleol i adnabod dioddefwyr bregus posibl.

### CBS Caerffili: Erlyn Masnachwyr Diegwyddor

Ers Covid, mae masnachwyr crwydrol, cyflawnwyr traddodiadol trosedd carreg drws wedi'u huno gan adeiladwyr a masnachwyr tebyg a oedd wedi rhedeg busnesau lleol a oedd yn cydymffurfio'n flaenorol ond cawsant eu temtio gan y cyfle i ennill arian mawr a chymryd prosiectau graddfa fawr nad oeddynt â'r gallu i'w cynnal, gyda'r diffyg arbenigedd gofynnol. Yn aml, roedd y tasgau hyn ar raddfa fawr yn golygu bod y defnyddwyr yn talu symiau anferth o arian ond nad yw'r gwaith hwnnw yn cael ei gwblhau, wedi'i gamddisgrifio, yn beryglus ac o werth isel iawn ac wedyn yn wynebu caledi ariannol ond hefyd y cywilydd a'r straen meddyliol sy'n mynd law yn llaw â sgamiau o'r fath. Nid oedd y dioddefwyr yn ddioddefwyr bregus arferol sy'n gysylltiedig â'r math hwn o drosedd, ond yn aml yn llawer iau ac â mwy o grebwyll, a oedd wedi cynnal ymchwil cyn mynd i gontractau. Roedd gan lawer o'r dioddefwyr deuluoedd ifanc ac roedd y difrod i eiddo wedi cael effaith negyddol ar y plant. Canlyniad tri digwyddiad a arweiniodd at erlyniad oedd bod y defnyddwyr yn gwario ychydig dros £200,000 heb fawr ddim yn ei ôl. Dyfarnwyd iawndal mewn dau achos ac mae atafaeliad POCA yn digwydd gyda'r trydydd, ond mae'r straen a'r dioddef i'r dioddefwyr yn anfesuradwy.



## Cyngor Sir Penfro: Cefnogi Dioddefwyr Sgamiau Bregus

Codwyd £800 ar gwpwl bregus ag anawsterau dysgu a oedd angen mân atgyweiriadau i'r to am ailosod un deilsen a oedd wedi llithro. Yna aeth y masnachwr ati i wneud honiadau ffug yn ymwneud â diogelwch eu corn simdde gan dreulio 30 munud ar ôl hynny ar y to a chodi £4,500 ar y cwpwl.

Roedd y gwaith hwn yn ddiangen, yn is na'r safon, ac mae'r cwpwl wedi gorfod gordalu yn ddirfawr. Erlynodd y Gwasanaeth Safonau Masnach Sir Penfro y masnachwr a blediodd yn euog i bedair trosedd o dan y Ddeddf Twyll.
Derbyniodd ddedfryd carchar gohiriedig o 15 mis a dyfarnwyd gorchymyn iawndal o £900 i'r dioddefwyr.




## CBS Castell-nedd Port Talbot: Gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae gwasanaeth Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn gweithio gyda'r Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a'i wasanaethau Trwyddedu lleol ar fenter i addysgu gwestai lleol a darparwyr llety ar arwyddion camfanteisio'n rhywiol ar blant. Galwyd y fenter hon yn Ymgyrch Oakham. Er nad oes gan Safonau Masnach ddyletswydd penodol mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, mae gan y gwasanaeth wybodaeth ar y busnesau perthnasol a allai fod yn dyst iddo. Cyflwynodd y prosiect hyfforddiant a chyngor i nifer o sefydliadau yn ardal Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â chynnal ymarferion "prynu prawf" i weld a fyddai'r busnesau a wiriwyd yn cwestiynu oedolion a oedd yn trefnu ystafelloedd i'w hunain gyda phlant am gyfnodau byr o amser. Ymhellach, mae'r gwasanaeth yn aelod o'r Grŵp Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, fforwm ar gyfer adnabod targedau o fudd ar y cyd gyda phartneriaid ac ar gyfer rhannu gwybodaeth.

## Cyngor Sir Caerfyrddin: Dadansoddiad Risg Dioddefwyr Integredig Seraphimbeta© trueCall

Mae 272 o ddioddefwyr sgamiau yn amodol ar ymyriadau parhaus o dan Raglen Ymyriad â Galwadau Sgâm a Niwsans Seraphim trueCall Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gan ddefnyddio'r peiriant ymyriad Seraphimbeta©, (datrysiad meddalwedd arloesol a grëwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin) i awtomeiddio monitro metadata cofnod galwadau trueCall a hysbysu swyddogion rhaglen o leoliad defnyddwyr trueCall, yr amheuir y byddent yn ymgysylltu â dulliau twyll telegyfathrebu, gan ymddwyn mewn ffordd sy'n eu rhoi wrth risg gynyddol o erledigaeth twyll telefarchnata ac adnabod dyfeisiau trueCall, nad ydynt yn gweithio/camweithio, ymgymerwyd â 2752 o gamau monitro wedi'u hawtomeiddio ar gyfer y cyfnod 2023/24.

Arweiniodd camau monitro yn ystod y cyfnod at gynhyrchu 76 rhybudd ymyriad, gan arwain at ymyriadau gan swyddog llesiant. Canlyniadau o'r gweithgareddau ymyriad hyn yw adnabod erledigaeth twyll telefarchnata heb eu hadrodd, gwneud iawn i ddioddefwyr, cefnogaeth barhaus uwch i ddioddefwyr a disodli dyfeisiau anweithredol/diffygiol trueCall i ddiogelu'r preswylwyr mwyaf bregus.

Ar gyfer y cyfnod 2023/24, ataliodd ddyfeisiau trueCall Cyngor Sir Caerfyrddin 20,921 o alwadau niwsans, y cafodd 3,922 ohonynt eu hadnabod yn alwadau ffôn sgâm gan atal tua 34 sgâm. Amcangyfrifir bod arbedion o'r gweithgaredd hwn wedi arbed £157,373 i aelwydydd bregus ac wedi arwain at ostyngiad o £93,201 mewn costau gwasanaeth cyhoeddus (GIG, Gofal Cymdeithasol a Heddlu).

## ADRAN DAU: CEFNOGI'R ECONOMI LEOL

Ni all economïau lleol a thwf economiadd ffynnu oni bai bod busnesau yn cael chwarae teg ac nad ydynt yn amodol ar gystadleuaeth annheg gan y rheini sy'n torri'r gyfraith, a thrwy allu cyrchu cyngor da ar sut i fodloni gofynion rheoleiddio.

### 2.1 Busnesau yn cael yr Help a'r Gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i Ffynnu a Thyfu

Mae cael economi leol ffyniannus yn hanfodol i awdurdodau lleol ac i'r Llywodraeth. Nid yw rôl Safonau Masnach wrth ddarparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau erioed wedi bod bwysicach.

Ar hyn o bryd mae 79 o **bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol** ar draws Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod cyngor sicr yn cael ei roi i fusnes gyda siopau neu safleoedd lluosog trwy un awdurdod lleol. Roedd cynnydd mewn gweithgaredd o 8% o 2022/23.

Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru:

- Bod dros 1,900 awr wedi'u darparu gan Safonau Masnach yn cynghori busnesau Awdurdod Sylfaenol.
- Bod Safonau Masnach wedi ymateb i bron i 1,700 o geisiadau am gyngor gan fusnesau nad oeddynt yn rhan o'r cynllun Awdurdod Sylfaenol.

### 2.2 Creu a Chynnal Chwarae Teg ar gyfer Cystadleuaeth Ddiogel a Theg

Mae cystadleuaeth deg yn sail i dwf economaidd. Mae cystadleuaeth annheg gan y rheini sy'n methu bodloni safonau cyfreithiol yn difrodi'r economi a gall achosi i fusnesau cyfreithlon fethu, ynghyd â rhoi defnyddwyr wrth risg.

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn dilyn model ar sail risg ac wedi'i arwain gan wybodaeth. Byddant yn cymryd camau cymerus i'r risg. Gallai camau gynnwys rhoi cyngor, atafaelu cynnyrch anniogel, ffug, ac anghyfreithlon, a chymryd camau gorfodi ffurfiol lle fo angen.

Mae cydymffurfiad wedi cynyddu gan **19%** o 2022/23. Gallai hyn fod o ganlyniad i geisiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd am ragor o arolygiadau bwyd.


Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru:

- Bod dros 13,000 o ymweliadau â busnesau wedi'u cynnal i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac i roi cyngor i'w helpu i gywiro unrhyw ddiffyg cydymffurfio.
- Roedd 3,700 o fusnesau yn amodol ar ymyriad, megis cyngor, ymchwiliad, neu atgyfeiriad.

- Bod 59% o Wasanaethau Safonau Masnach Cymru yn gweithredu cynllun masnachwr sicr i helpu hyder y defnyddiwr. Mae'r rhain yn dueddol o fod wedi'u targedu at sectorau masnach penodol. Mae hyn wedi parhau'n sefydlog ond mae nifer y busnesau sy'n cymryd rhan wedi gostwng yn sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn. Cymerodd bron i 168 o fusnesau ran yn y cynlluniau hyn.
- Cafodd dros 10,350 o gynnyrch ffug gyda gwerth ar y farchnad o dros £1.1 miliwn, sy'n torri eiddo deallusol busnesau cyfreithlon, eu hatafaelu.

Mae hyn yn llawer yn llai na'r hyn y bu mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r rheswm dros hyn yn hysbys. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd newid mewn ffocws i waith ar fêps a thybaco. Gallai nwyddau ffug fod yn cael eu gwerthu trwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol yn hytrach nac eiddo ffisegol, gan olygu bod atafaelu ar raddfa fawr yn llai tebygol ac ymyriad yn anos. Byddwn yn monitro hyn yn y dyfodol.

Mae'r masnachu nwyddau ffug yn anghyfreithlon yn ariannu troseddu cyfundrefnol ac yn difrodi busnesau cyfreithlon sy'n cynhyrchu, dosbarthu, a phrynu trwyddedau i werthu cynnyrch cyfreithlon.



## Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd (Pen-y-bont ar Ogwr, Dinas a Sir Caerdydd a Bro Morgannwg): Cefnogi BBaCh

Gweminarau sector Gwella Cartrefi ar gyfer busnesau newydd - mae SRS yn cynnig gwasanaethau niferus i gefnogi busnesau o fewn ei ardal gan gynnwys y cynllun masnachwr dibynadwy Prynu â Hyder, gwasanaethau Awdurdod Sylfaenol, cyngor busnes a nifer o gyrsiau hyfforddi. Aeth un busnes yn ei ardal i gynllun Awdurdod Sylfaenol gyda SRS yn 2019 ac oherwydd y buddion cadarnhaol a'r twf y maen nhw wedi'u gweld o'r bartneriaeth hon, daethant hefyd yn aelodau o'r cynllun Prynu â Hyder ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'r busnes hefyd wedi bod yn archwilio sut mae ei waith mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnach o fudd i'w fyfyrwyr, sy'n hyfforddi i ddod yn weithwyr proffesiynol gwelliannau i'r cartref, e.e. plymwyr, trydanwyr, peirianyddion nwy, gosodwyr cegin, ayyb. Mae llawer o'r myfyrwyr hyn yn debyg o sefydlu eu busnesau eu hunain unwaith y byddan nhw'n cymhwyso a gall y mathau hyn o fasnachwyr fod yn anodd i Safonau Masnach eu hadnabod, ac ymgysylltu â nhw, hyd nes i rywbeth fynd o'i le. Mae SRS wedi bod yn darparu sesiynau gweminar byr ar y cyd â'r cwmni, gan ymdrin â meysydd allweddol o ddeddfwriaeth safonau masnach gan gynnwys gwaith papur a hawliau canslo, hawliau i ddefnyddwyr a gwneud iawn, sut i ddelio â chwynion, cyfraith cytundeb a sut i osgoi sgamiau busnes.  Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i gannoedd o fyfyrwyr ar draws y DU, ynghyd a'u cynnig i bartneriaid mewn canolfannau hyfforddi. Mae'r gweminarau hefyd wedi tynnu sylw at y gwasanaethau a gynigir gan wasanaethau Safonau Masnach i fusnesau, ynghyd â ffynonellau eraill o gyngor a chefnogaeth, i helpu i addysgu'r busnesau newydd ar yr ystod o gyngor a chefnogaeth y gall Safonau Masnach eu cynnig. Y bwriad yw rhoi'r hyder i fusnesau newydd wrth ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithlon, gan hynny gostwng nifer y toriadau dianghenrhaid i ddeddfwriaeth oherwydd diffyg gwybodaeth, a all gael effeithiau economaidd sylweddol ar fusnesau a defnyddwyr.

## Cyngor Dinas Casnewydd: Hyfforddiant Bwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF):

Mae gwasanaeth Safonau Masnach Casnewydd yn cynnal rhaglenni llwyddiannus cymorth i fusnesau ac yn parhau i gynnig cefnogaeth mewn cannoedd o ymweliadau a rhyngweithiadau y mae'n eu cael gyda busnesau. Mae busnes sy'n cydymffurfio yn fusnes llwyddiannus, gan hynny, mae'r gefnogaeth a ddarperir yn helpu i gyflawni economi cryf yn y ddinas. Ymhlith y prosiectau allweddol y mae'r gwaith Diogelwch Bwyd a gefnogir gan SPF, gwaith Awdurdod Sylfaenol, gweithgaredd trwyddedu, a chynlluniau masnachwr sicr.

## Castell-nedd Port Talbot: Gweithdy Safonau Bwyd ar gyfer Busnesau Cludfwyd

Ar y cyd â'r cydlynydd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) lleol, cynhaliodd Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot weithdy safonau bwyd am ddim ar gyfer busnesau cludfwyd. Defnyddiodd y cydlynydd BAME eu cysylltiadau i wahodd busnesau perthnasol.  Rhoddodd sesiwn gweithdy'r bore gyngor ar bob agwedd ar safonau bwyd, gyda ffocws penodol ar alergenau.  Gobeithir parhau â'r rhaglen hon ar gyfer y blynyddoedd i ddod.



## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Cynnig cefnogaeth gynnar i fusnesau newydd

Pan gawn wybod am fusnes newydd, neu arsylwi ar fusnesau newydd, bydd y gwasanaeth Safonau Masnach yn ymweld i roi cyngor cychwynnol ar yr holl ddeddfwriaeth berthnasol. Os caiff yr awdurdod lleol ei hysbysu cyn ei sefydlu, yna rhoddir cyngor sefydlu cychwynnol, a all arwain at fusnesau newydd posibl yn newid eu model busnes unwaith y maen nhw'n deall y costau sy'n gysylltiedig â'r cydymffurfiad cyfreithiol, yn enwedig yn y sector diogelwch a bwyd. Mae'r awdurdod lleol yn gweld nifer digynsail o fusnesau newydd; mae ei ffigurau hysbysu misol yn alinio â ffigurau blynyddol cyn-bandemig. Eleni, mae'r busnesau newydd yn cynnwys: masnachwyr ceir, gwneuthurwr bwyd / danteithion cŵn, cynhyrchwyr mêl a busnes yn cynhyrchu ac yn cyflenwi microwyrddion.

Mae Safonau Masnach Gwynedd yn creu ffeil eiddo unigryw ar gyfer pob masnachwr newydd sy'n gweithredu yng Ngwynedd ac sy'n dod i'w sylw. Gweithdrefn Gwynedd yw cysylltu â phob masnachwr newydd, naill ai o bell neu drwy arolygu yn bersonol. Bydd y penderfyniad p'un a ddylid arolygu neu gysylltu o bell yn dibynnu ar y gweithgaredd/risg busnes. Anoga hyn fusnesau i gydymffurfio â rheoliadau a chadw at ganllawiau busnes da. Mae swyddogion yn gwerthuso gwybodaeth a dderbynnir ac ymgymerir ag arolygiadau wedi'u targedu i fusnesau penodol i sector i gynnig cyngor, arweiniad ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Yn ystod 2023/24, arolygodd swyddogion 48 eiddo ar drwydded i sicrhau eu bod yn masnachu'n deg gan gynnal 64 o arolygiadau i eiddo masnachu y mae'n hysbys eu bod yn gwerthu e-sigarennau, gan gyfuno arolygiadau o'r fath i gynnwys gwerthu cynnyrch cyfyngiad oed, cyfreithlondeb e-sigarennau ynghyd â materion masnachu teg eraill megis prisio a diogelwch cynnyrch.

# ADRAN TRI: HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT

Mae iechyd a llesiant cymunedau lleol yn bwysig i bob awdurdod lleol ac mae gan Safonau Masnach ran bwysig i'w chwarae trwy sicrhau bod cynnyrch defnyddwyr yn bodloni safonau diogelwch, bod bwyd wedi'i labelu'n gywir a bod safonau iechyd a llesiant anifeiliaid yn cael eu cynnal.

Mae Safonau Masnach, yn benodol, yn gorfodi ystod eang iawn o ddeddfwriaethau gwerthiannau wedi'u cyfyngu gan oed i helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel. Mae atal cyflenwi cynnyrch wedi'u cyfyngu gan oed, megis fêps, sigarennau, alcohol, a chyllyll, yn flaenoriaeth allweddol mewn nifer o awdurdodau lleol.

## 3.1 Sicrhau Diogelwch Cynnyrch Defnyddwyr

Mae cyfreithiau diogelwch cynnyrch wedi'u sefydlu i sicrhau nad yw cynnyrch yn achosi marwolaethau nac anafiadau personol. Gall nwyddau defnyddwyr anniogel megis cosmetig, teganau a nwyddau trydanol achosi anafiadau difrifol, tanau a hyd yn oed beryglu bywydau. Ynghyd â gwirio nwyddau ar lefel adwerthu a chyfanwerthu, mae Safonau Masnach yn adnabod, yn gwirio, ac yn atafaelu cynnyrch anniogel mewn porthladdoedd.

Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru:

- Bod 6,700 o gynnych anniogel neu nad ydynt yn cydymffurfio wedi'u hatafaelu neu eu tynnu o'r farchnad yn dilyn ymyriadau Safonau Masnach.
- Bod arbedion i gymdeithas, o ran gwerth cynnyrch dros £265,000.

## 3.2 Diogelu'r gadwyn fwyd

Bu ffocws cynyddol ar ddiogelwch bwyd i ddiogelu defnyddwyr. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynyddu ei ffocws ar rôl awdurdod lleol wrth sicrhau bod safonau bwyd yn cael eu cynnal. Mae hyn yn debyg o gael ei adlewyrchu yn yr ymyriadau cynyddol a grybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae prisiau bwyd yn uwch nac erioed. Gall hyn gynyddu'r demtasiwn i fusnesau diegwyddor lygru neu labelu bwyd yn ffug er mwyn cynyddu elw neu ennill mantais cystadleuol. Rhaid i ddefnyddwyr allu ymddiried mewn labeli bwyd a chael gwerth da am arian. Mae angen iddynt hefyd gael gwybodaeth glir, ddibynadwy am alergenau bwyd a all achosi anaf difrifol neu hyd yn oed farwolaeth.

Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru:

- Bod 1,750 o fusnesau wedi'u hadnabod yn cyflenwi bwyd a gafodd ei gamddisgrifio, na wnaethant ddatgan alergenau yn gywir, yn cynnwys cydrannau gwenwynig neu anghyfreithlon, neu'n gysylltiedig â thwyll bwyd.

Mae sicrhau safonau iechyd a llesiant cywir i anifeiliaid, a diogelu'r anifeiliaid rhag dioddefaint, yn helpu'r economi wledig ac yn gwarchod y gadwyn fwyd.

Yn **2023/24**, amcangyfrifir ar draws Cymru:

- Bod dros 1,250 o fusnesau wedi'u canfod yn torri deddfwriaeth iechyd a llesiant anifeiliaid.

Mae achosion o glefydau anifeiliaid yn achosi risg i economi'r DU a'r diwydiant ffermio. Dylid cofio bod Achosion Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001 wedi costio £8 biliwn i'r economi yn y DU, ac achosi problemau a effeithiodd ar dwristiaeth, ffermio, cyflogau gwledig, a chynhyrchu bwyd am flynyddoedd lawer wedi hynny.

Yn 2023/24, cafwyd llawer yn llai o achosion o'r ffliw adar nac yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

## 3.3 Gostwng risg o blant yn cyrchu cynnyrch â chyfyngiad oed

Cynhalia Wasanaethau Safonau Masnach bryniannau prawf i sicrhau nad yw busnesau yn gwerthu nwyddau â chyfyngiad oed i blant, ynghyd â rhoi cyngor i fusnesau ar sut i gydymffurfio. Mae deddfwriaeth yn gwahardd gwerthu cynnyrch â chyfyngiad oed, megis fêps, alcohol, sigarennau, cyllyll, a thanau gwyllt i blant, i'w diogelu a'u cymunedau lleol rhag niwed. Eleni bu ffocws cenedlaethol parhaus ar y problemau a achosir gan werthu fêps i blant.

Mae adnoddau wedi'u symud tuag at brofi fêps, gan arwain at lai o brofi dan oed ar gynnyrch eraill gan gynnwys tybaco anghyfreithlon.

- Profwyd 72 eiddo ar gyfer gwerthiannau alcohol.
- Y gyfradd fethu gyfartalog ar gyfer pryniannau prawf alcohol oedd 15%.
- Profwyd dros 422 eiddo am werthiannau fêps anghyfreithlon.
- Y gyfradd fethu gyfartalog ar gyfer fêps oedd 14.5%.
- Profwyd dros 103 eiddo am gynnyrch eraill.
- Y gyfradd fethu gyfartalog ar gyfer cynnyrch eraill oedd 16%.

## 3.4 Gostwng argaeledd cynnyrch anghyfreithlon

Gall tybaco, fêps ac alcohol anghyfreithlon gynnwys halogyddion heb eu datgan. Gall fêps anghyfreithlon hefyd gynnwys lefelau uwch nag a ganiateir o nicotin.

Mae ysmygu yn parhau yn yrrwr sylweddol mewn anghydraddoldebau iechyd. Mae pris wedi'i brofi yn ffactor critigol wrth bennu a yw pobl yn rhoi'r gorau i ysmygu. Mae presenoldeb tybaco anghyfreithlon rhad yn tanseilio ymdrechion i annog pobl i dorri'n ôl a rhoi'r gorau i ysmygu. Mae pecynnau o sigarennau anghyfreithlon yn aml rhwng traean a hanner pris cynnyrch cyfreithlon.

Mae swm y cynnyrch tybaco a fêps a atafaelwyd wedi cynyddu'n aruthrol er 2022/23. Mae hyn yn adlewyrchu cyffredinolrwydd problemau fepio a'r flaenoriaeth y mae'r gwaith hwn yn ei gael o fewn awdurdodau lleol. Cefnogir y gwaith gydag ariannu gan Safonau Masnach Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Yn **2023/24**, ar draws Cymru:

- Cafodd 1.3miliwn o sigarennau anghyfreithlon eu hatafaelu gyda 0.220 tunnell o dybaco rholio â llaw anghyfreithlon, gyda gwerth cyfun ar y stryd o dros £735,000.
- 376,500 o fêps anghyfreithlon wedi'u hatafaelu gan awdurdodau lleol.
- Gwnaed 99 o bryniannau prawf i wirio ar ddilysrwydd tybaco a chynnyrch tybaco

Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn caniatáu ar gyfer adolygu, a'r posibilrwydd o dynnu trwydded, gan Bwyllgor Trwyddedu awdurdod lleol, lle bydd methiannau i gydymffurfio ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu yn digwydd. Mae'r amcanion hyn yn atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed. Mae gweithgareddau gan Safonau Masnach wedi arwain at 4 Adolygiad Trwyddedu yn cael eu cynnal.





## Ynys Môn: Gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Llu Ffiniau'r DU (UKBF) i fynd i'r afael â fêpio anghyfreithlon

Arweiniodd gwaith partneriaeth Safonau Masnach Ynys Môn â Heddlu Gogledd Cymru at Orchymyn Cau 3 mis i siop fêps ar yr ynys a arweiniodd at ostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwerthiannau dan oed i blant a oedd i'w weld yn effeithio ar eu hiechyd/gwaith ysgol. Arweiniodd waith gyda UKBF ym mhorthladd Caergybi at 118,011 o fêps yn cael eu hatal rhag ymuno â'r farchnad a chafodd 2,824 eu tynnu rhag cael eu gwerthu mewn siopau adwerthu. Pennwyd bod gwerth y fêps hyn ar y stryd yn £1,463,569.92. Hyd yma, mae 232,307 o fêps wedi'u dinistrio.

## Cyngor Dinas Casnewydd: Aflonyddu ar Dybaco Anghyfreithlon

Mae Ymgyrch Osprey yn perthyn i dybaco anghyfreithlon. Cyfoethogodd y tîm dactegau aflonyddu wrth atafaelu, erlyn, a chau. Cafodd y broblem ei sgorio o dan y system MORILE Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'i chyflwyno i'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU). Cynhaliwyd gwyliadwriaeth uniongyrchol gan ddefnyddio system camerâu teledu cylch cyfyng a sefydlwyd cysylltiadau rhwng nifer o siopau ar stryd fawr y ddinas. Dangosodd wyliadwriaeth yr un bobl yn dosbarthu tybaco i'r siopau a bob amser yn gadael ac yn cael mynediad i'r ardal ar yr un ffordd. Nid oedd camerâu teledu cylch cyfyng ar gael i adnabod y llwybr ymhellach. Roedd y ROCU yn gallu cymryd agwedd ar yr ymchwiliad a rhoi arbenigedd i wyliadwraeth 'dilyn ar droed', ac yn fuan iawn darparwyd gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfeiriad preswyl lle'r oedd yr unigolion wedi'u lleoli.

Roedd camau wedi'u cydlynu yn cynnwys gweithredu gwarant, arestio, atafaelu, cau, a chyhuddo rhywun dan amheuaeth, y cyfan mewn un diwrnod. Canlyniad y diwrnod o weithredu oedd atafaelu 23,000 o sigarennau, 2,000 o fêps, 4.9 kg o dybaco ynghyd ag arian parod a chanabis. Cafodd yr unigolion dan amheuaeth eu herlyn o dwyll ar ôl hynny.

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot: gweithio â'r Gwasanaeth Ieuenctid i fynd i'r afael â fêps anghyfreithlon

Mae Tîm Safonau Masnach Castell-nedd Port Talbot yn cyflenwi seminarau'n rheolaidd ar faterion safonau masnach testunol i aelodau etholedig i'w cadw'n ymwybodol o'i waith. Ar gyfer y seminar e-sigarennau / fêps, gweithiodd Safonau Masnach gydag aelod o Wasanaeth Ieuenctid yr Adran Addysg. Yna arweiniodd hyn at Wasanaeth Ieuenctid a Safonau Masnach yn cydweithio i sefydlu panel i rannu gwybodaeth a hyrwyddo cydweithio ar fêps. Mae'r panel hwn wedi'i redeg ers mis Medi 2023, mae'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, ASH Cymru, gwasanaethau Cyngor Dinas Abertawe (Safonau Masnach, Gwasanaethau Cymdeithasol), a'r Heddlu lleol. Mae'r grŵp wedi cyrchu hyfforddiant ar fêps i bartneriaid ac aelodau, mae'n fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid ac wedi datblygu cynllun prosiect i hyrwyddo gwybodaeth ar ddefnyddio fêps a pheryglon defnyddio fêps anghyfreithlon.

# ADRAN PEDWAR: SERO NET, COSTAU YNNI A NEWID YN YR HINSAWDD

Parha'r agenda Sero Net a Newid yn yr Hinsawdd i fod yn bwysig i awdurdodau lleol. Mae gan lawer y mater hwn yn flaenoriaeth corfforaethol allweddol. Mae'r argyfwng costau byw hefyd wedi golygu bod honiadau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni a chostau yn ddeniadol i ddefnyddwyr wrth iddynt geisio arbed arian. Er nad oes unrhyw ddata penodol wedi'i gasglu ar y mater hwn, bydd ffigurau yn cael eu cynnwys o fewn y cyfansymiau ar gyfer gwiriadau cydymffurfiaeth, cyngor ar fusnes a ffigurau erlyn mewn penodau blaenorol. Er enghraifft, mae rhai Safonau Masnach yn cynnal gwaith mewn perthynas â:

- Honiadau camarweiniol am gynnyrch ynni gwyrdd megis pympiau gwres a phaneli solar.
- Sicrhau cydymffurfiad â Thystysgrifau Perfformiad Ynni a Safonau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol.
- Honiadau "gwyrddgalchu" camarweiniol.
- Gorfodi gwaharddiadau defnydd plastigau untro.

### Cynghorau Sir Dinbych a Sir y Fflint yn cydweithio mewn perthynas â gwyrddgalchu a honiadau gwyrdd

Gweithiodd Cyngor Sir Dinbych gyda Chyngor Sir y Fflint a'i wasanaethau grantiau ei hun mewn perthynas â 'busnesau gwyrdd' a oedd wedi'u cofrestru ar gynllun yr Awdurdod. Ysgrifennwyd at y cyfan ar ôl honiadau mewn perthynas â chymeradwyaeth Adran Llywodraeth Ganolog, technegau gwerthu a dulliau tuag at ddefnyddwyr. Cysylltwyd â threfnwyr y cynllun yn Sir y Fflint ac yn dilyn trafodaethau, ysgrifennwyd at yr holl fusnesau a'u cynghori am arferion/honiadau gwerthu a marchnata.

### CBS Blaenau Gwent: Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012. Arddangos Tystysgrif Ynni. Cydymffurfiad yn dechrau yn y swyddfa!

Yn ychwanegol at y sector preifat, mae'r Rheoliadau yn gofyn i adeiladau'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd (ac sy'n rhan o ddarpariaethau rheoliad 10 a 14) i arddangos Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) mewn safle amlwg.

Yn dilyn Asesiad Strategol Blynyddol yr holl ddata perthnasol, gweithiodd Safonau Masnach Blaenau Gwent yn agos â "Landlord Corfforaethol" y Cyngor dros gyfnod o amser i gynghori ar y ddeddfwriaeth a pharatoi cynllun i wirio cydymffurfiad adeiladau'r Cyngor. Yn dilyn hyn cafwyd cyfres o arolygiadau i wirio cydymffurfiad ym mis Chwefror/Mawrth 2024 ar 25% o adeiladau cyhoeddus yr Awdurdod. Roedd y canlyniadau yn tynnu sylw bod yr EPC yn cael ei arddangos mewn safle amlwg yn yr holl adeiladau a arolygwyd (cydymffurfiad 100%).

Mae Blaenau Gwent hefyd wedi sefydlu cytundeb dwyochrog gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i orfodi darpariaethau o dan Reoliad 34A yn ymwneud ag adeiladau sy'n berchen i'r Cyngor.



## Casnewydd: Effeithlonrwydd Ynni

Arweiniodd waith gan Wasanaethau Safonau Masnach Casnewydd at wyth eiddo domestig wedi'u marchnata'n anghyfreithlon yn cael eu dwyn i gydymffurfiad o'u sgorau methu F a G. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad blynyddol o 30.2 tunnell o CO2 ac arbedion o £2,428 y flwyddyn i breswylwyr. Adnabuwyd tri eiddo domestig heb eu sgorio'n llwyr a'u dwyn i safon, gan arwain at ostyngiad o 23 tunnell o CO2 ac arbedion i breswylwyr o £3,787 y flwyddyn. Gwnaed 11 o gartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni gan arwain at arbediad o £6,215 y flwyddyn, a chreu amgylchedd cynhesach ac iachach o bosibl i fagu teulu. Gwelodd y tîm hefyd 22 eiddo wedi'u marchnata'n fasnachol yn anghyfreithlon yn cael eu dwyn i gydymffurfiaeth o'u sgorau F a G a oedd yn methu, gan arwain at ostyngiad blynyddol o 576 tunnell o CO2. Roedd swm y carbon a dynnwyd o'r amgylchedd cyfwerth â phlannu 56,000 o goed.

## Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd (Pen-y-bont ar Ogwr, Dinas a Chyngor Caerdydd, a Bro Morgannwg): Effeithlonrwydd Ynni

Cysylltodd Safonau Masnach â pherchnogion, asiantau, a landlordiaid cartrefi rhent preifat ar draws y tair ardal awdurdod lleol i'w hatgoffa o'u dyletswyddau o dan y Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol (MEES). Cyfeiriodd y tîm nhw hefyd at ariannu a allai fod ar gael i gynorthwyo wrth wella sgôr ynni cartrefi.
Y ffocws oedd eiddo yr ymddengys eu bod yn disgyn i'r sgorau effeithlonrwydd ynni F a G sydd wedi'u gwahardd, ynghyd â'r rheini na cheir sgôr wedi'i gyhoeddi ar eu cyfer. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd cyfanswm o 138 eiddo wedi'u gwella'n ddigonol i'w codi allan o'r sgôr effeithlonrwydd ynni F a G i ddod yn sgôr E neu well.

Hefyd, mae ryw 127 o gartrefi rhent preifat heb eu sgorio yn flaenorol bellach â Thystysgrif Perfformiad Ynni yn amrywio o B i E. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 406 tunnell yn swm y CO2 a gynhyrchir yn yr eiddo sydd wedi'u gwella a gostyngiad o bron i 425,000 KWh sydd ei angen i wresogi'r cartrefi gwell.

## ADRAN PUMP: ARGYFWNG COSTAU BYW

Fel y cyfeirir drwyddi draw'r adroddiad hwn, mae'r argyfwng costau byw wedi parhau i ddylanwadu ar y gwaith a wneir gan Safonau Masnach eleni. Yn yr un modd â sero net, nid oes unrhyw ddata penodol yn cael ei gasglu ar y mater hwn gan y bydd ffigurau yn cael eu cynnwys o fewn y cyfansymiau ar gyfer gwiriadau cydymffurfio, cyngor busnes a gweithgaredd gorfodi.

### Cyngor Sir Caerfyrddin: Menter Llesiant Ffermwyr

Mae Tîm Iechyd Anifeiliaid Safonau Masnach wedi ymateb i nifer cynyddol o gwynion am lesiant anifeiliaid ar ffermydd dim ond i ganfod bod ffermwyr yn profi anawsterau ariannol a/neu feddyliol. Fe wnaethant dynnu ynghyd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth (i gynnig cyngor ar ddyledion/ariannol), ac elusennau, Tir Dewi (sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i ffermwyr) a'r Sefydliad DPJ (elusen iechyd meddwl i'r gymuned ffermio) felly bellach mae dulliau ar waith ar gyfer atgyfeiriadau pedair ffordd rhwng pob un o'r sefydliadau, gan sicrhau bod ffermwyr yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt.

Fel enghraifft, ymatebodd swyddogion i un cwyn ac yn ystod ymweliad ar y cyd gyda'r Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, canfuwyd tystiolaeth o sgerbydau wedi'u gwasgaru ar draws yr eiddo, swm mawr o slyri ac ychydig iawn o borfa, gwellt neu wair. Dywedodd y ffermwr wrth swyddogion ei fod yn ei chael hi'n anodd, nad oedd ganddo arian na chefnogaeth ac roedd yn ofalwr i'w fam oedrannus a oedd wedi ceisio cymryd ei bywyd ei hun yn ddiweddar. Yn y lle cyntaf, roedd yn rhy falch i dderbyn cymorth, ond ar ôl sawl ymweliad gan swyddog, cytunodd i gwrdd â Thir Dewi a Chyngor ar Bopeth a oedd yn gallu cynnig cymorth ymarferol ac ariannol, a oedd yn caniatáu i'r ffermwr ddatrys diffyg cydymffurfiad a dod yn fwy sefydlog yn ariannol ac yn emosiynol.

### Ynys Môn: Codi taliadau ychwanegol am dalu gyda cherdyn yn arwain at gyfraniad i fanc bwyd lleol

Erlynwyd busnes Ynys Môn am godi tâl ychwanegol ar gwsmeriaid oedd yn talu gyda cherdyn gan arwain at 'gyfraniad o £6000' i'r Banc Bwyd Lleol; mae gwybodaeth bellach a chyd-destun i'w cael trwy glicio ar y datganiad i'r wasg; www.journaloftradingstandards.co.uk/consumer/anglesey-ts-secures-food-bank-donation/



## Wythnos Safonau Masnach Cymru: “Costau Byw”

Costau byw oedd y thema gyffredinol ar gyfer yr Wythnos Safonau Masnach Cymru.

Fe wnaeth datganiadau i’r wasg, negeseuon yn y cyfyngau, negeseuon LinkedIn, podlediadau ar radio cymunedol a fideos byrion dynnu sylw at waith Safonau Masnach Cymru mewn ardaloedd sy’n ceisio cefnogi rhai o’r heriau sy’n gysylltiedig â’r argyfwng costau byw. Rhannwyd gwybodaeth yn lleol hefyd gan awdurdodau lleol unigol. Chwaraewyd hysbyseb yn hyrwyddo Wythnos Safonau Masnach Cymru ar draws ystod o orsafoedd radio cymunedol. Roedd gan bob gorsaf tua 20,000 o wrandawyr, wedi’u seilio ar eu hymchwil eu hunain.

Neilltuwyd dyddiau penodol i fwyd, tanwydd, benthycwyr arian didrwydded, camddisgrifiadau a chynnyrch anniogel.

Tynnodd Safonau Masnach Cymru sylw at waith partneriaid a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys rhai podlediadau ar y cyd gyda rheoleiddwyr cenedlaethol.

Dangosodd ddata X (Twitter gynt) Safonau Masnach Cymru yn ystod yr Wythnos Safonau Masnach Cymru bod argraffiadau wedi codi i 6,500 gan gynrychioli cynnydd o 1,700% ar fisoedd blaenorol. Roedd yr argraffiadau uchaf ar y themâu Benthycwyr Arian Didrwydded a Thanwydd.

## Cyngor Sir Powys: Dosbarthiadau Tanwydd Swp

Cynhaliodd Gwasanaeth Safonau Masnach Powys brofion tanwydd swp gan ganfod bod un tancer yn dosbarthu 14 litr yn brin o fesur am bob 1,000 litr o danwydd gwres canolog. Amcangyfrifir bod y gost i’r cwsmer unigol yn golled o tua £10 fesul dosbarthiad o 1,000L. Amcangyfrifir bod y masnachwr wedi ennill tua £8,250 ar hyd y flwyddyn o’r dosbarthiadau a oedd yn brin.